# BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU POBL**

**PWNC:** **PWYLLGOR CRAFFU POBL - DYDD LLUN, 13 TACHWEDD 2023 DYDD LLUN, 13 TACHWEDD 2023**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: T. SMITH (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: C. Bainton
D. Bevan
G. Humphreys
G. Thomas

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jen Morgan, Y.H a D. Wilkshire. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **PWYLLGOR CRAFFU POBL** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Pobl a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>PENDERFYNIADAU'R CABINET – STRATEGAETH / POLISÏAU / CANLLAWIAU CYNHWYSIANT AC ADY (ADOLYGU A DIWYGIADAU)</u>**<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim fod ymrwymiad pendant i weithio gyda phenaethiaid ysgolion ac uwch arweinwyr ar unrhyw bolisïau newydd pan fod ASOS yn caniatáu hynny.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd yr Aelod Cabinet Pobl ac Addysg ei bod yn cydnabod pwysigrwydd Craffu a diolchodd i Aelodau am eu harchwiliad o'r adroddiad pan y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor.<br><br>Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod eisiau rhoi sylwadau ar gynghori yn erbyn Opsiwn 2 pan y'i cyflwynwyd, a phwysleisiodd nad oedd mewn unrhyw ffordd yn ceisio tanseilio gwaith y Pwyllgor Craffu, ond teimlai fod nifer o faterion yn ymwneud â'r ymgynghoriad na chafodd eu cyfathrebu i'r Pwyllgor Craffu ac wedi arwain at gamddealltwriaeth a fyddai'n effeithiol ar allu'r Gyfarwyddiaeth Addysg i gyflawni ei dyletswyddau statudol.<br><br>Yn gyntaf, roedd gweithdrefnau ASOS wedi cael ac yn dal i gael effaith niweidiol ar ysgolion cynradd a phenaethiaid ysgol yn gwrthod cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a gynigiwyd oherwydd ASOS, ac amlinellodd yr Aelod Cabinet lefel yr ymgysylltu a gynigiwyd.<br><br>Yn ail mae angen i ni wneud newidiadau i'n Strategaeth Cynhwysiant i sicrhau ei fod yn unol â newidiadau polisi a ddaw gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, sefydlwyd sianel Teams gyda'r polisïau wedi eu lanlwytho a gofynnwyd i benaethiaid ysgol anfon eu sylwadau drwy e-bost yn hytrach na chyfarfod, er mwyn rhoi cyfle i ymgysylltu heb fynd yn erbyn ASOS. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymatebion.<br><br>Yn olaf, bu ymgynghoriad ffurfiol llawn a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Mheipen | |

| | | |
|---|---|---|
| | ac fel canlyniad cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol a wnaeth gau ar 26 Gorffennaf 2023, heb unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion.<br><br>Dywedodd yr Aelod Cabinet y gwnaed ymdrechion pellach i ymgysylltu gyda phenaethiaid ysgol er bod ASOS yn parhau, ond dywedodd ei bod yn hanfodol nad oedd gweithredu diwydiannol yn llesteirio ar gyfrifoldeb statudol yr Awdurdod a'i gyfrifoldeb i blant gydag anghenion ychwanegol.<br><br>Daeth yr Aelod Cabinet i ben drwy ddweud y bu cyfres o ddigwyddiadau y gallai fod wedi eu cyfathrebu'n well i'r Pwyllgor Craffu, a theimlai y byddai hynny wedi arwain at i'r adroddiad gael derbyniad mwy cadarnhaol. Byddai'n ymdrechu i sicrhau y caiff y llinellau hynny o gyfathrebu gyda'r Pwyllgor Craffu eu cyflawni'n well a'u bod yn fwy cadarn wrth symud ymlaen a gobeithiai y byddai'r esboniad a roddwyd yn rhoi gwell dealltwriaeth i Aelodau o pam ei bod wedi gofyn i'r Cabinet gefnogi Opsiwn 1, yn erbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am fynychu a rhoi esboniad. Diolchodd iddi hefyd am y cyfle i fynychu'r Cabinet ar ran y Pwyllgor, a dywedodd ei fod yn falch y byddai cyfathrebu yn well wrth symud ymlaen. | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD: CARTREFI PRESWYL PLANT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad fel cynrychiolaeth gywir o'r cynnydd hyd yma yng nghyswllt datblygu cartrefi preswyl plant ym Mlaenau Gwent (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **<u>DIWEDDARIAD AR GYNNYDD AR ARGYMHELLION ESTYN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd. (Opsiwn 2). | |
| **No. 9** | **<u>RHAGLEN GWELLA YSGOLION</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd (Opsiwn 2). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 10** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 19 RHAGFYR 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd<br><br>• Strategaeth TGCh i gael ei symud i gyfarfod Chwefror/Mawrth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn y flaenraglen gwaith ar gyfer 19 Rhagfyr 2023. | |